# P-04-499 Rhoi Hwb i Gwricwlwm yr Iaith Gymraeg

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid Cwricwlwm yr Iaith Gymraeg mewn ysgolion uwchradd; er mwyn annog y defnydd o'r iaith Gymraeg ar ffurf sgyrsiol yn hytrach nag ar ddysgu Cymraeg i basio arholiad.

Gwybodaeth ychwanegol: Rydym ni, fel disgyblion mewn ysgol uwchradd yng Nghymru, yn credu nad yw'r system bresennol o ddysgu Cymraeg yn annog dysgu gydol oes ar gyfer bywyd go iawn y tu allan i'r ysgol. Credwn nad yw'r ffocws presennol ar basio arholiad yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r defnydd o Gymraeg go iawn ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn gadael yr ysgol ac yn anghofio'r rhan fwyaf o'r hyn maent wedi'i ddysgu yn ystod eu plum mlynedd o addysg uwchradd. Rydym eisiau i'r Cynulliad fynd i'r afael â'r mater o ddysgu Cymraeg gydol oes mewn ysgolion uwchradd Saesneg eu cyfrwng er mwyn cadw'r iaith Gymraeg yn fyw ledled y wlad. Credwn fod angen gwneud y newid hwn cyn bo hir cyn bod difrod na ellir ei ddadwneud yn digwydd a bod yr iaith Gymraeg yn datblygu'n iaith ar gyfer arwyddion ffyrdd ac amgueddfeydd.

Prif ddeisebydd: Eva Bowers a Lauren Davies

Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 24 Medi 2013

Nifer y llofnodion: 19